



Comisiwn
y Gyfraith

Diwygio'r gyfraith



Adolygiad o Ddeddfau Cymdeithasau Cyfeillgar 1974 a 1992

Crynodeb o'r Adroddiad

Pwrrpas yr adolygiad hwn

Gweler Pennod 1 am gyflwyniad cyffredinol i'n hadolygiad a Phennod 14 am restr o'n holl argymhellion.

Dyma grynodeb o'n hadroddiad terfynol sy'n adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu cymdeithasau cyfeillgar: Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1974 ("Deddf 1974") a Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1992 ("Deddf 1992").

Rydym yn gwneud argymhellion yn yr adroddiad i symleiddio a diweddarau'r gyfraith, ar sail ymatebion i'n papur ymgynghori ym mis Mawrth 2025 a'n gwaith ymchwil ein hunain. Mae Bil drafft yn cyd-fynd â'r adroddiad sy'n dangos sut gellid rhoi ein hargymhellion ar waith (Bil Cymdeithasau Cyfeillgar (Diwygio)).

Mae Deddfau 1974 a 1992 yn berthnasol ledled y DU. Fel Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr, rydym yn gwneud argymhellion ar gyfer yr awdurdodaeth hon yn unig, ond efallai y bydd y Llywodraeth yn penderfynu ymestyn diwygiadau'n ehangach, er enghraifft i'r Alban a Gogledd Iwerddon.

Nid yw'r ddogfen hon yn crynhoi pob argymhelliad. Yn hytrach, mae'n rhoi trosolwg o'r prosiect, gan gynnwys y materion a'r argymhellion allweddol. Mae'n egluro beth yw cymdeithasau cyfeillgar, pam eu bod yn bwysig, y prif anawsterau a achosir gan y gyfraith bresennol, a sut byddai ein hargymhellion allweddol yn moderneiddio'r fframwaith cyfreithiol.

Beth yw cymdeithasau cyfeillgar?

Mae cymdeithasau cyfeillgar yn fudiadau cydfuddiannol. Maent yn eiddo i'w haelodau ac yn cael eu hariannu'n bennaf gan gyfraniadau'r aelodau.

Mae cymdeithasau cyfeillgar wedi cael eu cydnabod mewn statud ers 1793. Mae ganddynt hanes nodedig fel mudiadau sy'n seiliedig ar gymorth ar y cyd. Mae pobl wedi'u defnyddio i reoli'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â salwch, diweithdra, henaint a marwolaeth. Mae'r sector bellach yn llawer llai nag yr oedd ar un adeg, ond mae gan gymdeithasau cyfeillgar asedau sylweddol o hyd ac maent yn gwasanaethu llawer o aelodau ledled y Deyrnas Unedig.

Mae cymdeithasau cyfeillgar yn wahanol i gwmnïau, gan mai dim ond at ddibenion statudol penodol y gellir eu sefydlu. O dan Ddeddf 1992, gallant ddarparu yswiriant i aelodau neu unigolion cysylltiedig, a buddion yn ôl disgresiwn, fel grantiau i helpu gyda chostau angladd neu daliadau caledi.

Mae'r sector yn amrywiol. Mae rhai cymdeithasau cyfeillgar yn cynnal busnes yswiriant rheoledig ac yn ddarostyngedig i reoliadau gwasanaethau ariannol llym. Mae eraill yn darparu buddion yn ôl disgresiwn yn unig ac nid ydynt yn cael eu rheoleiddio yn yr un ffordd. Mae rhai'n darparu yswiriant a buddion yn ôl disgresiwn.

Nodweddion arbennig cymdeithasau cyfeillgar

Mae swyddogaeth graidd cymdeithasau cyfeillgar wedi aros yr un fath i raddau helaeth ers canrifoedd. Mae pedair nodwedd yn eu gwneud yn wahanol i yswirwyr nad ydynt yn rhai cydfuddiannol.

Cyrhaeddiad a chynhwysiant ariannol. Mae cymdeithasau cyfeillgar yn aml yn darparu ar gyfer grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol yn ariannol. Gall eu model cydfuddiannol leihau rhwystrau mynediad a chaniatáu yswiriant y gallai yswirwyr masnachol ei wrthod oherwydd maint yr elw isel. Fel cyrff sy'n eiddo i aelodau, gall cymdeithasau cyfeillgar ganolbwyntio ar fodloni

hawliadau a darparu buddion i ddeiliaid polisi, yn hytrach na chynhyrchu elw i gyfranddalwyr allanol. Er enghraifft, os oes gan gymdeithas arian ar ôl ar ôl cyflawni ei rhwymedigaethau, gellir defnyddio'r arian hwnnw i leihau costau i aelodau, i wella gwasanaethau neu i gryfhau'r gymdeithas ar gyfer y dyfodol.

Pwyslais hirdymor ac ethos busnes. Heb unrhyw fuddsoddwyr allanol i'w bodloni, gall cymdeithasau cyfeillgar fabwysiadu strategaethau hirdymor a thyfu drwy elw a gedwir. Mae hyn yn cefnogi cymryd risgiau'n ofalus ac mae wedi cyfrannu at eu gwydnwch. Mae llawer hefyd yn pwysleisio dulliau buddsoddi cyfrifol a chynaliadwy, gan eu gwneud yn opsiwn deniadol i unigolion sy'n ceisio cyd-fynd â safonau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant, er enghraifft.

Perchnogaeth ddemocrataidd. Mae cymdeithasau cyfeillgar yn eiddo i'w haelodau, sy'n cael dweud eu dweud am sut mae'r gymdeithas yn cael ei rhedeg drwy fodel "un aelod, un bleidlais" neu strwythur pleidleisio cynrychioladol (er enghraifft, defnyddio cynrychiolwyr etholedig). Mewn gwirionedd, mae ymgysylltiad aelodau yn amrywio. Ychydig iawn mae aelodau'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd rhai cymdeithasau, tra bo gan gymdeithasau eraill aelodau gweithredol sy'n frwd dros y gymuned. Yn draddodiadol, mae'r model cydberchnogaeth wedi cyfyngu ar fynediad at fuddsoddiad allanol, er bod rhai'n dadlau dros gynnwys buddsoddwyr rheoledig. Dywedir hefyd bod rhanberchnogaeth yn lleihau'r cymhelliad ar gyfer hawliadau anonest, oherwydd bod gan aelodau fuddiant ar y cyd yng nghronfeydd y gymdeithas.

Rôl gymdeithasol a chymunedol. Yn hanesyddol, roedd cymdeithasau cyfeillgar yn cynnig defodau a chynulladau cymdeithasol a oedd yn cryfhau cysylltiadau cymunedol. Er bod yr agwedd hon ar fywyd cymdeithas gyfeillgar wedi dirywio ers diwedd y 19eg ganrif, mae gan rai cymdeithasau raglenni cymdeithasol cryf o

hyd. I rai aelodau, mae'r gweithgareddau "brawdgarol" hyn yr un mor werthfawr â buddion ariannol.

Y gyfraith gyfredol

Disgrifir y fframwaith deddfwriaethol yn aml fel clytwaith sy'n anodd ei ddeall. Mae'r fframwaith wedi'i rannu ar draws Deddf 1974 a Deddf 1992.

Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1974

Er gwaethaf ei enw, mae Deddf 1974 yn berthnasol i fathau eraill o gymdeithasau hefyd, yn ogystal â chymdeithasau cyfeillgar. Mae'r rhain yn cynnwys cymdeithasau yswiriant gwartheg, cymdeithasau llesiannol, clybiau gweithwyr, cymdeithasau cartrefi pobl hŷn a chymdeithasau sydd wedi'u hawdurdodi'n arbennig.

Ar hyn o bryd mae 706 o gymdeithasau wedi'u cofrestru o dan Ddeddf 1974, gan gynnwys 88 o gymdeithasau cyfeillgar.¹ Mae tua hanner y cymdeithasau cyfeillgar hynny'n rhedeg busnes yswiriant rheoledig. Ers i Ddeddf 1992 ddod i rym, nid oes unrhyw gymdeithasau newydd wedi gallu cofrestru o dan Ddeddf 1974. Felly, dim ond cymdeithasau sydd wedi cofrestru'n barod o dan Ddeddf 1974 y mae'r ddeddfwriaeth hon yn berthnasol iddynt.

Mae cymdeithasau cyfeillgar a oedd wedi cofrestru o dan Ddeddf 1974 yn cael eu llywodraethu'n rhannol gan y Ddeddf honno ac yn rhannol gan Ddeddf 1992. Mae'r gorgyffwrdd hwn yn golygu bod y fframwaith cyfreithiol yn anoddach ei ddefnyddio.

Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1992

Dim ond i gymdeithasau cyfeillgar y mae Deddf 1992 yn berthnasol, a chyflwynodd

¹ FCA, "Mutual societies registration function: 2025/26" (Mai 2026, diweddardwyd Mehefin 2026).

gorffori. Mae cymdeithasau cyfeillgar corfforedig yn gyrrff corfforaethol gydag atebolrwydd cyfyngedig. Mae hyn yn golygu bod atebolrwydd aelodau wedi'i gyfyngu i danysgrifiadau heb eu talu, a gall y gymdeithas ddal eiddo, erlyn a chael ei herlyn yn ei henw ei hun, yn hytrach na dibynnu ar ymddiriedolwyr fel y mae cymdeithasau'n ei wneud o dan Ddeddf 1974.

Ar hyn o bryd, mae 26 o gymdeithasau cyfeillgar corfforedig,² ac mae'r mwyafrif helaeth ohonynt yn ymwneud â busnes yswiriant rheoledig.

Nid oedd Deddf 1992 yn disodli Deddf 1974. Yn hytrach, roedd yn creu cyfundrefn amgen ar gyfer cymdeithasau cyfeillgar, yn cau Deddf 1974 i gymdeithasau newydd gofrestru, ac yn ei gwneud yn ofynnol i gymdeithasau cyfeillgar presennol a oedd wedi cofrestru o dan Ddeddf 1974 newid eu rheolau i gydymffurfio â'r ddwy Ddeddf cyn diwedd "cyfnod pontio". Ni chafodd dyddiad gorffen ei bennu erioed. Rhagwelodd Papur Gwyrdd 1990 a ragflaenodd Ddeddf 1992 y byddai Deddf 1974 yn cael ei diddymu yn y pen draw pan nad oedd ei hangen mwyach.


TERMINOLEG BERTHNASOL

Mae **cymdeithasau cofrestredig** yn gymdeithasau sydd wedi'u cofrestru o dan Ddeddf 1974 ac eithrio cymdeithasau cyfeillgar, fel clybiau gweithwyr a chymdeithasau llesïannol.

Mae **cymdeithasau cyfeillgar cofrestredig** yn gymdeithasau cyfeillgar sydd wedi'u cofrestru o dan Ddeddf 1974.

Mae **cymdeithasau cyfeillgar corfforedig** yn gymdeithasau cyfeillgar sydd wedi'u cofrestru a'u hymgorffori o dan Ddeddf 1992.

Yn dibynnu ar y math o fusnes y mae'r gymdeithas gyfeillgar yn ei wneud, bydd yn cael ei rheoleiddio naill ai gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol neu'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus. Er bod Deddf 1992 a'r Bil yn cyfeirio mewn gwahanol leoedd at yr "**awdurdod priodol**" (gweler Pennod 3 yr adroddiad am ragor o fanylion), mae'r ddogfen hon yn cyfeirio drwyddi draw at "**y rheoleiddiwr**" er hwylustod.



² FCA, "Mutual societies registration function: 2025/26" (Mai 2026, diweddardwyd Mehefin 2026).

Yr achos dros ddiwygio

Mae'r achos dros ddiwygio yn gryf. Mae'r gyfraith yn gymhleth, yn ddarniog ac, mewn mannau, yn hen ffasiwn. Nid yw wedi cadw i fyny â safonau llywodraethu modern na'r saernïaeth reoleiddio bresennol ar gyfer cwmnïau gwasanaethau ariannol.

Dywedodd ymgynghoreion wrthym fod y fframwaith yn gallu bod yn anghymesur. Mae hynny'n bwysig oherwydd gall gormod o gymhlethdod ei gwneud yn anoddach i gymdeithasau cyfeillgar weithredu, moderneiddio, trosglwyddo busnes neu dyfu'n gynaliadwy.

Nid ail-ddylunio'r sector yw ein tasg. Ein tasg yw argymhell fframwaith cyfreithiol cliriach a mwy cymesur sy'n cyd-fynd â natur ac anghenion cymdeithasau cyfeillgar. Gweler Atodiad 1 i'r adroddiad terfynol am gylch gorchwyl y prosiect.

Mae ein hargymhellion hefyd yn ceisio diogelu aelodau. Mae aelodau'n berchen ar gymdeithas gyfeillgar a dylent gael llais ystyrion yn ei strategaeth a'i busnes. Felly, ni ddylai symleiddio ddigwydd ar draul pleidleisio gwybodus, goruchwyliaeth effeithiol neu reoleiddio priodol.

Diddymu Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1974

Gweler Pennod 2.

Argymhellion allweddol

Argymhelliad 1: Dylid diddymu Deddf 1974.

Argymhelliad 2: Dylid diddymu Deddf 1974 dair blynedd ar ôl i Fil Cymdeithasau Cyfeillgar (Diwygio) ddod i rym fel cyfraith.

Dylai Trysorlys EF allu ymestyn y cyfnod pontio hwn unwaith, am dair blynedd arall.

Argymhelliad 3: Dylai cofrestrriad cymdeithas nad yw wedi ailgofrestru na throsi erbyn diwedd y cyfnod pontio o dair blynedd gael ei ganslo'n awtomatig.

Un o gwestiynau allweddol y prosiect hwn oedd a ddylai Deddf 1974 barhau i fod yn rhan o'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer cymdeithasau cyfeillgar. Rydym wedi dod i'r casgliad na ddylai. Yn ein barn ni, byddai diddymu yn symleiddio'r gyfraith, yn dileu dyblygu, ac yn sicrhau bod cymdeithasau sydd wedi'u cofrestru o dan y Ddeddf yn symud i ffurfiau cyfreithiol eraill.

Fel yr eglurwyd uchod, mae Deddf 1974 bellach yn gweithredu fel hen drefn. Nid oes yr un gymdeithas newydd wedi gallu cofrestru oddi tani ers i Ddeddf 1992 ddod i rym. Nid yw ychwaith yn gymwys yn unigryw i gymdeithasau cyfeillgar, ond i gymdeithasau eraill nad ydynt yn darparu yswiriant cydfuddiannol.

Mae'r cwmpas cymysg hwnnw'n anghysondeb hanesyddol. Roedd Deddf 1974 yn cydgrynhoi deddfwriaeth gynharach, llawer ohoni'n deillio o Ddeddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1875. Deddfwriaeth cymdeithasau cyfeillgar oedd yr unig lwybr a oedd ar gael ar un adeg i gofrestru ar gyfer ystod ehangach o fudiadau cydfuddiannol a chymunedol, ar adeg pan nad oedd cartrefi cyfreithiol mwy addas yn bodoli.

Mae Deddf 1974 hefyd yn cymhwyso'r un fframwaith eang i gymdeithasau o feintiau, dibenion a phroffiliau risg gwahanol iawn. Mae cymdeithasau sydd wedi cofrestru oddi tani yn amrywio o gymdeithasau bach i gymdeithasau cyfeillgar sy'n rhedeg busnes yswiriant rheoledig. Nid ydym yn credu bod un drefn statudol yn dal yn addas ar gyfer grŵp mor amrywiol.

Y tu hwnt i'r pryderon hyn, anhawster ychwanegol yw nad oes gan gymdeithasau

Cymdeithasau cyfeillgar - Crynodeb

sydd wedi'u cofrestru o dan Ddeddf 1974 bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân. Delir eu heiddo drwy ymddiriedolwyr. Mae hynny'n anarferol i gwmnïau gwasanaethau ariannol modern, sy'n gweithredu fel arfer drwy gyrff corfforedig sy'n gallu dal eiddo a gwneud contractau yn eu henwau eu hunain. Gall hefyd wneud goruchwyllo'n anoddach pan nad yw cofnodion ymddiriedolwyr yn cael eu diweddarau.

Roedd y problemau hyn yn dangos bod angen diwygio, ond nid oeddent ar eu pen eu hunain yn pennu ffurf y diwygio. Fe wnaethom ystyried pedwar dull posibl.

- 1. Cadw Deddf 1974 yn llawn.**
- 2. Cadw Deddf 1974 ar gyfer cymdeithasau cofrestredig yn unig, ond nid ar gyfer cymdeithasau cyfeillgar cofrestredig.**
- 3. Cadw, ehangu a diweddarau Deddf 1974.**
- 4. Diddymu Deddf 1974.**

Daethom i'r casgliad mai opsiwn 4, sef diddymu Deddf 1974, yw'r dull cliraf a mwyaf cydlynol. Byddai'n symleiddio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cwmnïau cydfuddiannol ac yn grwpio'r holl gymdeithasau cyfeillgar o dan Ddeddf 1992, fel y rhagwelwyd yn wreiddiol pan gynigiwyd y Ddeddf honno. Byddai pob cymdeithas gyfeillgar wedyn yn elwa o ymgorffori, yn hytrach na dibynnu ar ymddiriedolwyr i ddal eu heiddo, yn ogystal â'r diweddariadau rydym yn eu hargymell i Ddeddf 1992.

Gallai cymdeithasau cofrestredig ailgofrestru o dan deddfwriaeth sy'n addas i'w hanghenion, er enghraifft drwy droi'n gymdeithasau cydweithredol neu gymdeithasau budd cymunedol o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, neu'n gwmnïau cydfuddiannol o dan Ddeddf Cwmnïau 2006. Byddai diddymu hefyd yn lleihau'r baich

gweithredol ar y rheoleiddwyr, sydd ar hyn o bryd yn gorfod darparu canllawiau ar draws cyfundrefnau sy'n gorgyffwrdd.

Byddai ein hargymhelliad i ddiddymu Deddf 1974 yn llawn yn osgoi trin cymdeithasau a gofrestrwyd o dan y Ddeddf honno yn wahanol mewn ffyrdd a allai ymddangos yn annheg – er enghraifft, drwy ganiatáu i gymdeithasau cyfeillgar cofrestredig aros o dan Ddeddf 1974 tra'n mynnu bod cymdeithasau cofrestredig yn dod o hyd i gartref cyfreithiol newydd. Ar ben hynny, nid oes llawer o gyfiawnhad dros wario arian cyhoeddus yn diweddarau Deddf 1974 i'w gwneud yn addas i'w defnyddio'n barhaus yn yr hirdymor, pan fydd y Ddeddf yn cyflwyno heriau a phan fydd statudau eraill yn gallu cyflawni ei phwrpas, gan gynnwys Deddf 1992 a Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol.

Trefniadau pontio

Rydym yn cydnabod y gallai newid fod yn anodd i rai cymdeithasau. Yn ein barn ni, gellir mynd i'r afael â hyn drwy drefniadau pontio ystyrllon, yn hytrach na diddymu ar unwaith. Dylai'r diddymu ddod i rym dair blynedd ar ôl i Fil Cymdeithasau Cyfeillgar (Diwygio) ddod yn ddeddf.

Mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, fel yr awdurdod cofrestru, wedi nodi, pe bai'n cael ei ddiddymu, y byddai'n ysgrifennu at gymdeithasau yr effeithir arnynt i'w gwneud yn ymwybodol o'r newid ac i gynnig cymorth gydag ail-gofrestru neu drosi. Gallai'r gefnogaeth honno gynnwys templedi geiriau a seminarau hyfforddi.

Rhaid cael canlyniad clir hefyd os nad yw cymdeithas yn gweithredu cyn diwedd y cyfnod pontio. Rydym yn argymhell y dylid canslo ei gofrestriad yn awtomatig bryd hynny. Dylai'r un peth fod yn berthnasol i unrhyw gangen sydd wedi'i chofrestru o hyd o dan Ddeddf 1974 ar ddiwedd y cyfnod pontio.

Fframwaith rheoleiddiol a chyfansoddiadol cymdeithasau cyfeillgar

Gweler Pennod 3.

Argymhellion allweddol

Argymhelliad 6. Dylai'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol allu canslo cofrestriad cymdeithas gyfeillgar o dan Ddeddf 1992 am ddau reswm newydd: mae'r gymdeithas wedi mynd yn groes i unrhyw un o ddarpariaethau'r Ddeddf yn fwriadol; ac mae gan y gymdeithas lai na thri aelod.

Argymhelliad 9. Dylid caniatáu i gymdeithasau cyfeillgar ffurfio neu reoli is-gwmnïau heb orfod cynnwys y pŵer hwnnw yn eu memorandwm yn gyntaf.

Argymhellion 11, 12 a 13: Dylai fod yn ofynnol i gymdeithasau cyfeillgar fynd i'r afael â'r materion newydd canlynol yn eu rheolau: gwrthdaro rhwng buddiannau, dirprwyo pwerau pwyllgor rheoli, a chyfathrebu ag aelodau.

Cwmpas Deddf 1992

Mae Deddf 1992 yn berthnasol i gymdeithasau cyfeillgar rheoledig a chymdeithasau cyfeillgar nad ydynt yn rheoledig (hynny yw, cymdeithasau cyfeillgar sy'n darparu buddion yn ôl disgrisiwn yn unig). Mae hyn yn golygu na fydd yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus bob amser yn rhan o'r broses, er mai'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol fydd yr awdurdod cofrestru.

Un cwestiwn roeddem wedi'i ystyried oedd a ddylid cyfyngu Deddf 1992 i gymdeithasau cyfeillgar rheoledig. Byddai hynny'n creu rhaniad cliriach rhwng cymdeithasau cyfeillgar sy'n rhedeg busnes yswiriant a chymdeithasau

cyfeillgar sy'n darparu buddion yn ôl disgrisiwn yn unig.

Fodd bynnag, byddai anfanteision ymarferol i gulhau cwmplas y Ddeddf. Gallai ei gwneud yn anoddach i gymdeithasau cyfeillgar rheoledig adael model busnes yswiriant a symud i fodel buddion yn ôl disgrisiwn, a gallai orfodi cymdeithasau cyfeillgar nad ydynt yn rheoledig i ffurfiau cyfreithiol nad ydynt yn adlewyrchu eu hunaniaeth na'u hanghenion.

Rydym yn dod i'r casgliad y dylai Deddf 1992 barhau i fod yn agored i gymdeithasau cyfeillgar rheoledig a chymdeithasau cyfeillgar nad ydynt yn rheoledig. Mae hyn yn cadw fframwaith hyblyg sy'n adlewyrchu amrywiaeth y sector.

Rhesymau dros ddiddymu cofrestriad

Rydym yn argymhell y dylai Deddf 1992 roi adnoddau effeithiol i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol ddelio ag achosion o ddiffyg cydymffurfio difrifol gan gymdeithasau cyfeillgar. Ar hyn o bryd, gall yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol erlyn aelodau pwyllgor am rai achosion o dorri amodau, ond mae hynny'n targedu unigolion yn hytrach na'r gymdeithas gyfeillgar ei hun. Mae hefyd yn ymateb mwy cyfyngedig a llai hyblyg na diddymu cofrestriad.

Yn dilyn ein casgliad y dylai Deddf 1992 barhau i ddarparu ar gyfer pob cymdeithas gyfeillgar, p'un ai ydynt yn cynnal busnes yswiriant ai peidio, mae'n arbennig o bwysig bod Deddf 1992 ei hun yn rhoi pŵer diddymu i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, fel awdurdod cofrestru, lle mae cymdeithas gyfeillgar yn torri'r Ddeddf yn fwriadol. Rydym hefyd yn argymhell rheswm ar wahân ar gyfer diddymu lle mae gan gymdeithas gyfeillgar lai na thri aelod, sy'n adlewyrchu'r sefyllfa o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac sy'n adlewyrchu'r syniad sylfaenol y dylai cymdeithas gyfeillgar barhau i fod yn gymdeithas o sylwedd.

Fodd bynnag, mae diddymu'n gam difrifol. Felly, rydym yn argymhell mesurau diogelu cyn y

Cymdeithasau cyfeillgar - Crynodeb

gellir diddymu cofrestriad. Dylai'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol roi hysbysiad rhybuddio yn gyntaf. Os bydd yn penderfynu bwrw ymlaen, dylai gyhoeddi hysbysiad diddymu arfaethedig, gan roi amser i'r gymdeithas gyfeillgar gywiro'r tor-amod neu baratoi ar gyfer diddymu. Dylai'r gymdeithas gyfeillgar hefyd allu cyflwyno sylwadau i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol a dylai fod ganddi hawl i apelio i'r llys.

Cyfansoddiad cymdeithas gyfeillgar

Mae Deddf 1992 yn cyfeirio at femorandwm a rheolau cymdeithas gyfeillgar, sydd gyda'i gilydd yn nodi ei dibenion, ei phwerau a'i threfniadau llywodraethu. Rydym yn argymhell diffinio'r dogfennau hyn gyda'i gilydd fel cyfansoddiad y gymdeithas, i wneud y Ddeddf yn gliriach ac yn haws ei darllen.

Datganiadau statudol

Mae angen i gymdeithasau cyfeillgar ddiwygio eu cyfansoddiadau wrth i'w trefniadau busnes neu lywodraethu newid. O dan Ddeddf 1992, rhaid cofnodi newidiadau i femorandwm neu reolau cymdeithas, eu hanfon at yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'u cofrestru cyn iddynt ddod i rym.

Mewn rhai achosion, mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn am ddatganiad statudol. Mae gofynion datganiadau statudol yn adlewyrchu dull deddfwriaethol hirsefydlog sydd â'r bwriad o roi sicrwydd bod gweithdrefnau statudol wedi cael eu dilyn. Yn ymarferol, maent yn ychwanegu amser a chost a dim llawer o fudd. Yn gyffredinol, mae cymdeithasau cyfeillgar yn cyflwyno ceisiadau a hysbysiadau yn ddiidwyll: ceir enghreifftiau prin o ddiffyg cydymffurfio, ond mae hyn yn aml yn fwy anfwriadol na bwriadol. Mewn achosion o beidio â chydymffurfio'n fwriadol, nid yw'r gofyniad am ddatganiad statudol yn rhwystr angenrheidiol. Nid yw'n glir ychwaith bod dealltwriaeth dda o oblygiadau datganiadau statudol.

Am y rhesymau hyn, credwn nad yw datganiadau statudol yn fesur diogelu effeithiol. Yn gyffredinol, mae cymdeithasau cyfeillgar yn cyflwyno gwybodaeth yn ddiidwyll, a phan fydd gwybodaeth yn anghywir neu'n gamarweiniol, mae gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ffyrdd eraill o ymateb. Yn gyffredinol, nid yw systemau cofrestru cymaradwy eraill yn gofyn am ddatganiadau statudol ar gyfer newidiadau cyfansoddiadol arferol.

Felly, rydym yn argymhell dileu gofynion datganiadau statudol o Ddeddf 1992. Mae hyn yn ffordd ymarferol o symleiddio: byddai'n golygu bod modd ffeilio achosion cyffredin yn gyflymach ac yn llai costus, gan gadw rôl yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol o ran sicrhau bod diwygiadau cyfansoddiadol yn cydymffurfio â'r deddfwriaeth.

Ffurio is-gwmnïau

Gall cymdeithasau cyfeillgar corfforedig ffurfio neu reoli is-gwmnïau. Gall is-gwmnïau helpu cymdeithas gyfeillgar i gynnig gwasanaethau ategol, amrywio ei gweithgareddau neu reoli rhannau o'i busnes mewn strwythur mwy priodol.

Ar hyn o bryd, os yw cymdeithas gyfeillgar yn dymuno ffurfio neu reoli is-gwmnïau ond nad yw ei memorandum yn darparu ar gyfer hyn, rhaid diwygio ei memorandum. Mae hynny'n gofyn am benderfyniad arbennig a chofrestru gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Rydym o'r farn bod hyn yn ychwanegu cost ac oedi diangen ar gyfer yr hyn a fydd yn aml yn benderfyniad gweithredol neu dechnegol.

Rydym yn argymhell y dylai Deddf 1992 ganiatáu'n benodol i gymdeithasau cyfeillgar corfforedig ffurfio a chynnal is-gwmnïau heb orfod cynnwys y pŵer hwnnw yn eu memorandum yn gyntaf. Byddai hyn yn cael gwared ar gamau gweithdrefnol diangen ac yn cefnogi twf cynaliadwy, gan adael goruchwyliaeth reoleiddiol briodol ar waith.

Materion newydd i fynd i'r afael â nhw mewn rheolau cymdeithas gyfeillgar

Dylai rheolau cymdeithas gyfeillgar roi darlun clir i aelodau ac aelodau pwyllgor o sut mae'r gymdeithas yn cael ei llywodraethu'n ymarferol. Rydym yn argymhell ychwanegu tri mater synnwyr cyffredin at y rhestr o faterion y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt yn y rheolau.

1. Dylai'r rheolau egluro sut bydd y pwyllgor rheoli yn delio â gwrthdaro rhwng buddiannau — er enghraifft, pan fydd gan aelod o'r pwyllgor fuddiant personol mewn penderfyniad arfaethedig. Mae hyn yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau da ac yn ategu ein hargymhelliad i godeiddio dyletswyddau aelodau'r pwyllgor (gweler argymhelliad 20 isod).
2. Dylai'r rheolau ymdrin â dirprwyo pwerau pwyllgor. Mae dirprwyo yn aml yn angenrheidiol er mwyn rheoli'n effeithlon, ond dylai'r rheolau nodi'n glir sut gellir dirprwyo awdurdod ac unrhyw gyfyngiadau ar y dirprwyo hwnnw.
3. Dylai'r rheolau egluro sut mae'r gymdeithas yn cyfathrebu ag aelodau. Mae hyn yn hyrwyddo tryloywder gan adael pob cymdeithas gyfeillgar yn rhydd i ddewis y dulliau cyfathrebu sy'n gweithio orau i'w haelodau.

Aelodau a chymryd rhan

Gweler Pennod 4.

Argymhellion allweddol

Argymhelliad 14: Dylai aelod fod angen caniatâd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, yn dilyn cais ysgrifenedig, i gael mynediad at gofrestr aelodau cymdeithas gyfeillgar.

Argymhelliad 15: Dylai cymdeithasau cyfeillgar allu cyfathrebu ag aelodau drwy wefan ar sail optio allan, yn amodol ar rai mesurau diogelu, gan gynnwys yr hawl i ofyn am gopiau caled.

Argymhelliad 16: Dylai'r cyfnod rhybudd ar gyfer pob cyfarfod ddod i ben gyda dyddiad y cyfarfod, gan gynnwys lle caniateir pleidleisio drwy ddirprwy.

Mynediad at y gofrestr aelodau

Rhaid i gymdeithasau cyfeillgar gadw cofrestr o enwau a chyfeiriadau aelodau. Mae pwrpas ymarferol pwysig i'r gofrestr: mae'n caniatáu i aelodau nodi a chyfathrebu ag aelodau eraill am faterion y gymdeithas, er enghraifft pan fyddant yn dymuno gofyn am gymorth i alw cyfarfod.

Fodd bynnag, gall mynediad anghyfyngedig at y gofrestr arwain at risgiau. Gall manylion aelodau fod yn sensitif, yn enwedig os yw aelodaeth y gymdeithas yn cynnwys pobl neu grwpiau agored i niwed na ddylai eu hunaniaeth na'u cyfeiriad fod ar gael yn rhwydd. Mae risg hefyd y gellid defnyddio'r gofrestr at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig â materion y gymdeithas.

Felly, rydym yn argymhell cyflwyno mesur diogelu. Dylai aelod sydd eisiau gweld y gofrestr wneud cais i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Dylai'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol ganiatáu mynediad dim ond pan fydd yn fodlon bod angen yr wybodaeth er mwyn i'r aelod allu cyfathrebu ag aelodau eraill am faterion y gymdeithas. Dylai'r gymdeithas allu cyflwyno sylwadau, a dylai fod canlyniadau i gamdefnyddio gwybodaeth a geir o'r gofrestr.

Cyfathrebu'n electronig ag aelodau

Mae angen ffyrdd ymarferol ac effeithlon ar gymdeithasau cyfeillgar o gyfathrebu ag aelodau, yn enwedig pan fydd yn rhaid i aelodau benderfynu ar gynigion pwysig fel trosglwyddo, uno neu drosi. Mae Deddf 1992 eisoes yn caniatáu cyfathrebu electronig, ond dim ond pan fydd aelodau wedi optio i mewn.

Rydym yn gwahaniaethu rhwng dau fath o gyfathrebu electronig.

1. Mae **cyfathrebu drwy e-bost** yn dibynnu ar aelod yn rhoi cyfeiriad e-bost at y diben hwnnw. Nid ydym yn argymhell newid hyn, oherwydd dylai aelodau barhau i fod yn rhydd i benderfynu a ddylid rhoi cyfeiriad e-bost o gwbl.
2. Ymdrinnir â **chyfathrebu ar y wefan** yn wahanol. Nid yw'n ofynnol i aelodau roi cyfeiriad e-bost; yn hytrach, mae'r gymdeithas yn darparu gwybodaeth ar-lein ac yn rhoi gwybod i aelodau lle gellir dod o hyd iddi. Rydym yn argymhell caniatáu hyn ar sail optio allan, lle bo hynny wedi'i awdurdodi gan reolau'r gymdeithas neu drwy benderfyniad aelodau.

Byddai hwyluso'r broses o symud oddi wrth gyfathrebu ar bapur drwy ei gwneud yn haws trosglwyddo gwybodaeth drwy wefan yn arwain at arbedion o ran amser a chostau i gymdeithasau cyfeillgar, ond rhaid cydbwysu hynny ag ymreolaeth aelodau. Cyn y gall cymdeithas drosglwyddo gwybodaeth drwy wefan, dylid gofyn i aelodau gytuno, dylid rhoi gwybod iddynt beth fydd canlyniadau peidio ag ymateb, a dylid rhoi 28 diwrnod iddynt ymateb. Dylent hefyd allu tynnu cydsyniad tybiedig yn ôl a gofyn am ohebiaeth bapur, gan gynnwys copïau caled o ddogfennau sydd ar gael drwy wefan.

Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â chyfraith cwmnïau, gan roi model cyfarwydd i'r rheini

sydd fel arall yn ymwneud â llywodraethiant a gweinyddu.

Cyfarfodydd a phleidleisio

Mae cyfarfodydd a phleidleisio yn ganolog i aelodau'n cymryd rhan mewn cymdeithasau cyfeillgar. Maent yn rhoi llais ffurfiol i aelodau mewn penderfyniadau a allai effeithio ar eu buddiannau neu ar gyfeiriad y gymdeithas. Felly, dylai'r rheolau sy'n llywodraethu'r prosesau hynny fod yn glir ac yn hawdd eu rhoi ar waith.

Rydym yn argymhell un ffordd ymarferol o symleiddio pethau. Ar hyn o bryd, os caniateir pleidleisio drwy ddirprwy, gall y cyfnod hysbysu ar gyfer cyfarfod ddod i ben cyn dyddiad y cyfarfod. Gall hyn achosi dryswch, a gall camgyfrif annilysu'r cyfarfod neu'r penderfyniadau a basiwyd. Rydym yn argymhell un rheol: dylai'r cyfnod hysbysu ar gyfer pob cyfarfod ddod i ben gyda dyddiad y cyfarfod.

Roeddem hefyd wedi ystyried a ddylid caniatáu pleidleisio drwy ddirprwy mewn cyfarfodydd cynrychiolwyr lle mae penderfyniadau arbennig yn cael eu gwneud. Rydym yn dod i'r casgliad y dylai'r cyfyngiad presennol aros. Mae cyfarfodydd cynrychiolwyr yn fath o ddemocratiaeth gynrychioliadol: mae cynrychiolwyr etholedig yn cwrdd, yn dadlau ac yn pleidleisio ar ran aelodau. Gallai caniatáu i gynrychiolwyr benodi dirprwyon wanhau'r cyswllt democrataidd hwnnw.

Pwyllgor rheoli

Gweler Pennod 5.

Argymhellion allweddol

Argymhelliad 17: Dylai unrhyw un dros 18 oed fod yn gymwys i gael ei ethol i bwyllgor rheoli cymdeithas gyfeillgar. Ni ddylid cael terfyn oedran uchaf sydd wedi'i bennu'n statudol.

Argymhelliad 20: Dylai Deddf 1992 fabwysiadu'r dyletswyddau cyffredinol ar gyfer cyfarwyddwyr a nodir yn Neddf Cwmnïau 2006, yn amodol ar addasiadau sy'n addas i natur cymdeithasau cyfeillgar.

Argymhelliad 24: Dylai gwneud rhai taliadau penodol i aelodau pwyllgor am gollu swydd fod wedi'i eithrio rhag gofynion datgelu a chymeradwyo aelodau, fel o dan gyfraith cwmnïau.

Mae pwyllgor rheoli cymdeithas gyfeillgar yn cyflawni rôl debyg i fwrdd cyfarwyddwyr cwmni. Mae'n gyfrifol am reoli a goruchwyllo'r gymdeithas a'i busnes.

Cymhwysedd i fod yn aelod o bwyllgor

O dan Ddeddf 1992, rhaid ethol unigolyn i'r pwyllgor rheoli yn unol â rheolau'r gymdeithas. Mae'r Ddeddf yn pennu isafswm oedran o 18, ond mae hefyd yn cynnwys cyfyngiad oedran uchaf: dim ond os bodlonir gofynion cymeradwyo a datgelu ychwanegol y gellir ethol person sydd wedi cyrraedd 70 oed, neu unrhyw oedran ymddeol is a bennir gan y gymdeithas.

Dylid dewis aelodau'r pwyllgor oherwydd eu gallu i gyfrannu at y gymdeithas, heb eu heithrio oherwydd eu bod wedi cyrraedd oedran penodol. Rydym yn argymhell rheol syml: dylai unrhyw un dros 18 oed fod yn gymwys i gael ei ethol i'r pwyllgor rheoli, ac ni ddylai Deddf 1992 bennu terfyn oedran uchaf.

Ni ddylai cymdeithasau cyfeillgar allu gosod terfynau oedran uchaf drwy eu rheolau, er y gallant barhau i osod meini prawf cymhwysedd eraill. Byddai hyn yn caniatáu i gymdeithasau elwa o brofiad a gwybodaeth sefydliadol aelodau hŷn o'r pwyllgor, ac mae'n adlewyrchu newid tebyg yn y sector cymdeithasau adeiladu.

Dyletswyddau aelodau'r pwyllgor

Mae gan aelodau'r pwyllgor ddyletswyddau i gymdeithasau cyfeillgar yn barod, gan gynnwys dyletswyddau o dan gyfraith gwlad. Fodd bynnag, nid yw'r dyletswyddau hynny wedi'u nodi'n glir yn Neddf 1992.

Rydym yn argymhell rhoi'r dyletswyddau craidd hyn ar sail statudol. Byddai hyn yn gwneud y gyfraith yn haws dod o hyd iddi a'i deall, a byddai'n rhoi arweiniad cliriach i aelodau'r pwyllgor am y safonau a ddisgwylir ganddynt. Dyletswyddau cyffredinol cyfarwyddwyr yn Neddf Cwmnïau 2006 sy'n darparu'r model. Felly, bydd hwn yn fframwaith llywodraethu cyfarwydd.

Fodd bynnag, rhaid addasu'r dyletswyddau ar gyfer cymdeithasau cyfeillgar. Yn benodol, ni ddylai'r ddyletswydd i hyrwyddo llwyddiant cwmni (er budd cyfranddalwyr yn gyffredinol) fynegi syniad gwerth-cyfranddaliwr o "llwyddiant". Mae cymdeithasau cyfeillgar yn bodoli i fynd ar drywydd eu dibenion statudol er budd aelodau. Felly, dylai'r ddyletswydd ei gwneud yn ofynnol i aelodau'r pwyllgor weithredu'n ddidwyll i hyrwyddo'r dibenion penodol hynny, gan ystyried aelodau'n gyffredinol (a gweithredu'n deg rhwng gwahanol ddosbarthiadau o aelodau).

Diswyddo ac anghymhwyso aelodau pwyllgor

Rydym yn edrych ar fwlch arall yn y fframwaith deddfwriaethol: ar hyn o bryd, ni ellir anghymhwyso aelodau pwyllgor am dorri Deddf 1992 yn barhaus.

Rydym yn argymhell alinio â chyfraith cwmnïau, er mwyn gallu anghymhwyso aelod o'r pwyllgor am dorri'r gyfraith yn barhaus. Byddai eu penodiad yn dod i ben yn awtomatig, ac ni fyddent yn gymwys i gael eu penodi i unrhyw gymdeithas gyfeillgar arall.

Iawndal am golli swydd

Gall taliadau i aelodau pwyllgor am golli swydd godi pryderon llywodraethu amlwg. Dylai'r gyfraith sicrhau tryloywder a goruchwyliaeth aelodau lle mae taliadau o'r fath yn berthnasol, heb greu gweithdrefn ddiangen ar gyfer taliadau cyffredin neu risg isel.

Ar hyn o bryd, mae Deddf 1992 yn gwahardd iawndal yn gyffredinol am golli swydd neu ymddeol oni bai fod y taliad arfaethedig wedi'i ddatgelu i aelodau a'i gymeradwyo gan y gymdeithas. Rydym yn argymhell egluro y dylid cymeradwyo drwy benderfyniad cyffredin. Mae hyn yn cynnal rheolaeth aelodau ac yn osgoi trothwy sy'n ddiangen o uchel.

Rydym hefyd yn argymhell diweddarau'r eithriadau. Dylid eithrio taliadau a wneir i gyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol, iawndal, setliadau a phensiynau presennol, yn ogystal â thaliadau nad ydynt yn fwy na £200 yn eu crynswth. Mae hyn yn cadw craffu ar daliadau perthnasol ond yn osgoi prosesau diangen lle nad oes risg llywodraethu realistig.

Yn olaf, ni ddylai fod yn hawdd osgoi'r mesurau diogelu ar gyfer datgelu a chymeradwyo. Rydym yn argymhell ymestyn y drefn i daliadau a wneir i bobl sy'n gysylltiedig ag aelodau pwyllgor, ac i daliadau a wneir gan is-gwmnïau cymdeithasau cyfeillgar corfforedig.

Iawndal am golli swydd o ganlyniad i drosglwyddo, uno a throsi

Mae rheolau ar wahân yn berthnasol pan gynigir iawndal mewn cysylltiad â throsglwyddo, uno neu drosi. Gall y taliadau hyn fod yn arbennig o sensitif oherwydd eu bod yn codi ochr yn ochr â newidiadau strwythurol i'r gymdeithas a gallant greu gwrthdaro rhwng buddiannau ar gyfer rheolwyr. Felly, dylid rhoi gwybod i aelodau amdanynt a dylent gymeradwyo unrhyw daliad o'r fath ar wahân i'r trafodiad ei hun (er enghraifft, y cynnig trosglwyddo).

Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y gofyniad presennol am benderfyniad arbennig ar wahân yn anghymesur. Rydym yn argymhell bod angen datrysiad cyffredin ar wahân yn lle hynny. Mae hyn yn cadw goruchwyliaeth aelodau ac yn lleihau'r risg bod trafodiad buddiol yn cael ei rwystro gan drothwy cymeradwyo sy'n ddiangen o uchel ar yr un pryd.

Rydym hefyd yn argymhell cau bylchau yn y drefn. Dylid cynnwys taliadau i unigolion cysylltiedig, yn ogystal â thaliadau i aelodau pwyllgor a wneir gan barti arall i'r trafodiad, fel cwmni caffael. Ni ddylai fod yn bosibl gwneud taliadau digolledu sylweddol y tu allan i'r drefn datgelu a chymeradwyo aelodau.

Cyfrifon, archwiliadau a chymdeithasau cyfeillgar sy'n endidau er budd y cyhoedd

Gweler Pennod 6.

Argymhellion allweddol

Argymhelliad 30: Dylid caniatáu i gymdeithasau cyfeillgar ddewis eu dyddiad diwedd blwyddyn eu hunain, gan roi rhybudd i'r awdurdod cofrestru ac yn amodol ar ddarpariaethau pontio.

Argymhelliad 32: Dylai trefn archwilio haenog fod yn berthnasol i gymdeithasau cyfeillgar nad ydynt yn cael eu rheoleiddio.

Argymhelliad 36: Dylai'r Llywodraeth adolygu'r defnydd o'r drefn endidau er budd y cyhoedd.

Mae gofynion archwilio a chyfrifyddu yn sicrhau bod cymdeithasau cyfeillgar yn cadw cofnodion cywir, gan gefnogi sefydlogrwydd ariannol a chydymffurfiaeth reoleiddiol. Byddai ein hargymhellion yn creu fframwaith cyfrifyddu ac archwilio mwy cymesur.

Blwyddyn ariannol cymdeithasau cyfeillgar

Mae Deddf 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i ddiwedd blwyddyn ariannol pob cymdeithas gyfeillgar fod ar 31 Rhagfyr. Mae hynny'n rhoi dyddiad cyfeirio adrodd cyffredin i'r rheoleiddiwr ar draws y sector, a allai helpu'r gwaith goruchwyllo, ond mae hefyd yn creu problem ymarferol. Gan fod yn rhaid i bob cymdeithas gyfeillgar baratoi a chyflwyno eu cyfrifon, ac adroddiad yr archwilydd ar y cyfrifon hynny, o fewn yr un cyfnod, mae hyn yn dwysáu'r galw am wasanaethau cyfrifyddu, actiwaraid ac archwilio, gan gynyddu costau a lleihau dewis.

Yn ein barn ni, nid yw un diwedd blwyddyn sefydlog yn hanfodol er mwyn cael goruchwyliaeth effeithiol. Mae gan endidau eraill sy'n cael eu rheoleiddio ddiwedd blwyddyn gwahanol, ac mae'r rheoleiddiwr yn dal yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen arno drwy ofynion adrodd safonol.

Felly, rydym yn argymhell caniatáu i gymdeithasau cyfeillgar ddewis eu dyddiad diwedd blwyddyn ariannol eu hunain. Byddai hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i gymdeithasau ac yn helpu i ledaenu'r galw am wasanaethau proffesiynol. Byddai mesurau diogelu'n atal camddefnydd: er enghraifft, ni ddylai newid ganiatáu i flwyddyn ariannol bara mwy na 18 mis, ac ni ddylai cymdeithasau allu newid diwedd eu blwyddyn yn rhy aml.

Newidiadau canlyniadol i ddyddiadau cau ar gyfer ffeilio

Gan fod dyddiadau cau ffeilio yn gysylltiedig â diwedd y flwyddyn ariannol, rydym hefyd yn argymhell bod cyfrifon ac adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r rheoleiddiwr o fewn

chwe mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol, neu 14 diwrnod cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol, pa un bynnag sydd gynharaf.

Dull haenog o archwilio ar gyfer cymdeithasau cyfeillgar nad ydynt yn rheoledig

O dan Ddeddf 1992, rhaid i'r rhan fwyaf o gymdeithasau cyfeillgar a'r canghennau cofrestredig benodi archwilydd bob blwyddyn, beth bynnag fo'u maint neu eu gweithgareddau. Mae'n anodd cyfiawnhau'r un dull hwnnw ar draws sector mor amrywiol. Mae rhai cymdeithasau cyfeillgar yn yswirwyr rheoledig mawr; mae eraill yn gymdeithasau cyfeillgar bach nad ydynt yn rheoledig, sy'n darparu buddion yn ôl disgrisiwn i aelodau.

Mae gofynion archwilio yn bwysig ar gyfer tryloywder ac atebolrwydd, ond dylent fod yn gymesur. Nid ydym yn argymhell newid y gofynion archwilio ac adrodd ariannol sy'n berthnasol i gymdeithasau cyfeillgar rheoledig o dan Ddeddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol 2000 a deddfwriaeth gysylltiedig. Fodd bynnag, ar gyfer cymdeithasau cyfeillgar nad ydynt yn rheoledig, rydym yn argymhell dull ysgafnach, haenog.

Yn benodol, dylai cymdeithas gyfeillgar nad yw'n rheoledig allu, drwy benderfyniad arbennig, optio allan o'r ddyletswydd i benodi archwilydd os nad yw ei throsiant yn fwy na £15 miliwn ac nad yw cyfanswm ei mantolenni yn fwy na £7.5 miliwn. Mae hyn yn cadw rheolaeth yr aelodau tra'n sicrhau bod gofynion archwilio yn adlewyrchu maint a natur y gymdeithas.

Cymdeithasau cyfeillgar sy'n endidau budd y cyhoedd

Mae endidau budd y cyhoedd yn sefydliadau sy'n destun gofynion archwilio ac adrodd uwch oherwydd eu maint, eu natur neu eu rôl yn yr

economi. Mae rhai cymdeithasau cyfeillgar yn dod o dan y drefn endidau budd y cyhoedd oherwydd eu bod yn cynnal busnes yswiriant rheoledig ac yn cyrraedd y trothwy maint perthnasol.

Mae'r mater hwn wedi cael ei godi'n gyson â ni fel problem ymarferol ddifrifol. Mae archwiliadau endidau budd y cyhoedd wedi'u cynllunio ar gyfer endidau sydd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd, ond mae rhai cymdeithasau cyfeillgar sy'n rhan o'r drefn yn llawer llai ac yn llai arwyddocaol yn systematig na'r sefydliadau y cafodd ei dylunio ar eu cyfer yn bennaf. Gall y canlyniad fod yn lefel o gost a chraffu sy'n anodd ei chyfiawnhau wrth gyfeirio at y risgiau y maent yn eu hachosi.

Cawsom dystiolaeth y gall y drefn osod costau anghymesur ar gymdeithasau cyfeillgar, gan adlewyrchu'r nifer cyfyngedig o gwmnïau sy'n gallu cynnal archwiliadau endidau budd y cyhoedd a'r gofyniad i ail-dendro a chylchdroi archwilwyr. Mae'r costau hyn yn dargyfeirio adnoddau a allai fel arall arwain at ryw faint o fudd i aelodau a gallant roi pwysau ar sector sydd eisoes yn wynebu mynediad cyfyngedig at ddarparwyr archwilio addas.

Rydym o'r farn bod cyfiawnhad dros ddiwygio ac rydym yn argymhell bod y Llywodraeth yn adolygu'r defnydd o'r drefn endidau budd y cyhoedd ar gyfer cymdeithasau cyfeillgar, gyda'r bwriad o eithrio'r rheini sydd o dan drothwy maint priodol.

Diogelu asedau

Gweler Pennod 7.

Argymhellion allweddol

Argymhelliad 37: Dylai'r Llywodraeth adolygu mater diogelu asedau mewn cymdeithasau cyfeillgar, gan ystyried y canlyniadau treth posibl a sefyllfa aelodau sy'n gwneud elw yn benodol.

Mae cymdeithasau cyfeillgar yn aml yn cronni asedau dros ddegawdau lawer. Mae'r "asedau etifeddiaeth" hyn wedi cael eu cronni drwy gyfraniadau aelodau a'u bwriad yw bod o fudd i aelodau nawr ac yn y dyfodol. Y pryder yw, drwy ddadgydfuddiannu manteisgar, y gellid dargyfeirio'r asedau hynny oddi wrth eu pwrpas cydfuddiannol.

Gall cymdeithasau cyfeillgar eisoes gymryd camau i ddiogelu eu hasedau drwy eu rheolau, er enghraifft drwy bennu cyfnodau aros cyn y gall aelodau newydd bleidleisio ar ddadgydfuddiannu, mynnu trothwyon pleidleisio uwch, a sefydlu rheolau diogelu fel eu bod yn anoddach eu dileu. Mae'r mesurau hyn yn ddefnyddiol a gellir eu teilwra i amgylchiadau pob cymdeithas.

Fodd bynnag, nid yw dull sy'n seiliedig ar reolau yn cynnig y math cryfaf o warchodaeth. Gellir newid rheolau, efallai na fyddant yn cael eu mabwysiadu'n gyson ar draws y sector, a gallant fod dan fygythiad pan fydd cymdeithas yn troi'n ffurf gyfreithiol arall. Byddai clo asedau, hynny yw, cyfyngiad ar sut gellir defnyddio, trosglwyddo neu ddosbarthu asedau, yn ffordd fwy uniongyrchol a sicr o ddiogelu asedau etifeddol. Mae Deddf Cwmnïau Cydweithredol, Cwmnïau Cydfuddiannol a Chymdeithasau Cyfeillgar 2023 eisoes yn rhoi pŵer i Drysorlys EF wneud rheoliadau sy'n cyflwyno clo asedau gwirfoddol ar gyfer cymdeithasau cyfeillgar, ond nid oes rheoliadau wedi'u gwneud eto.

Fodd bynnag, mae anawsterau amrywiol yn gysylltiedig â sefydlu clo asedau yng nghydestun cymdeithasau cyfeillgar, gan gynnwys canlyniadau treth niweidiol posibl a gwrthdaro â rheoleiddio cronfeydd gydag elw. Byddai datrys y materion treth yn gofyn am newidiadau i ddeddfwriaeth treth neu ganllawiau Cyllid a Thollau EF, sydd y tu allan i'n cylch gwaith. Felly, rydym yn argymhell bod y Llywodraeth yn adolygu diogelu asedau mewn cymdeithasau cyfeillgar.

Trosglwyddo ymrwymadau busnes

Gweler Pennod 8 ar y broses drosglwyddo gyffredinol, Pennod 9 ar y broses llwybr carlam, ac Atodiad 3 am ffeithlun o'r broses bresennol.

Argymhellion allweddol

Argymhelliad 39: Dylai cymdeithas gyfeillgar sy'n drosglwyddai allu cymeradwyo trosglwyddo drwy benderfyniad pwyllgor, oni bai fod angen penderfyniad arbennig ar y rheoleiddiwr.

Argymhellion 41 a 42: Pan fydd aelodau'n pleidleisio ar drosglwyddo, dylid crynhoi'r manylion ariannol yn y datganiad i aelodau yn ogystal â'u nodi'n llawn. Os nad yw aelodau'n pleidleisio, dylent, serch hynny, dderbyn datganiad i aelodau, sy'n nodi manylion byr y materion rhagnodedig.

Argymhelliad 46: Ni ddylai'r rheoleiddiwr gadarnhau trosglwyddo os byddai'n niweidio buddiannau aelodau a phobl eraill sy'n derbyn yswiriant neu fuddion eraill yn sylweddol.

Argymhellion 50 a 51: Dylai proses drosglwyddo llwybr carlam fod ar gael i gymdeithasau cyfeillgar nad ydynt yn rheoledig a chymdeithasau cyfeillgar rheoledig "llai".

Gwella'r broses drosglwyddo bresennol

Mae trosglwyddo ymrwymadau o dan Ran 8 o Ddeddf 1992 yn caniatáu trosglwyddo llyfrau yswiriant o un parti i barti arall, heb orfod cael cydsyniad deiliaid polisi unigol. Ar gyfer cymdeithasau cyfeillgar, mae trosglwyddo'n arf ymarferol pwysig: mae'n caniatáu i gymdeithas symleiddio neu ehangu ei busnes, neu adael y farchnad, gan amharu cyn lleied â phosibl ar ddeiliaid polisi.

Mae'r broses bresennol yn cynnwys mesurau diogelu pwysig, gan gynnwys y canlynol.

- Cyn pleidleisio, anfonir gwybodaeth rhagnodedig am y cynnig i drosglwyddo at aelodau sy'n gymwys i bleidleisio.
- Mae aelodau'r trosglwyddwr yn pleidleisio ar y cynnig, yn yr un modd ag aelodau'r trosglwyddai, oni bai fod y rheoleiddiwr yn caniatáu i'r trosglwyddai fwrw ymlaen yn lle hynny drwy benderfyniad ei bwyllgor rheoli.
- Mae'r trosglwyddwr yn gwneud cais am gadarnhad o'r trafodiad i'r rheoleiddiwr a gall partion sydd â diddordeb gyflwyno sylwadau i'r rheoleiddiwr mewn perthynas â'r cais.
- Mae'r rheoleiddiwr yn cadarnhau'r trosglwyddo oni bai ei fod yn cael ei atal rhag gwneud hynny gan feini prawf statudol a elwir yn "seiliau gwahardd".

Dywedodd ymgynghoreion wrthym y gall y broses fod yn ddrud, yn araf ac yn anghymesur, yn enwedig pan nad yw trosglwyddo yn gymhleth neu'n risg uchel. Rydym yn argymhell diwygiadau sy'n cadw'r mesurau diogelu craidd ond yn gwneud y broses yn fwy ymarferol.

Pleidleisio. Rydym yn argymhell symleiddio'r sefyllfa ar gyfer cymdeithasau cyfeillgar sy'n drosglwyddeion. Nid yw aelodau trosglwyddai yn yr un sefyllfa ag aelodau trosglwyddwr: nid yw eu polisiau'n cael eu trosglwyddo, ac mae'r risgiau o dderbyn busnes yn gyffredinol yn fwy cyfyngedig. Felly, dylai cymdeithas gyfeillgar sy'n drosglwyddai allu cymeradwyo trosglwyddo drwy benderfyniad pwyllgor, oni bai fod y rheoleiddiwr yn mynnu bod aelodau'n pleidleisio ar benderfyniad arbennig (er enghraifft, oherwydd y gallai'r trosglwyddo effeithio'n sylweddol ar y gymdeithas). Mater i'r rheoleiddiwr fydd rhoi canllawiau ynghylch pryd y gallai benderfynu bod yn rhaid i gymdeithas gyfeillgar sy'n drosglwyddai fwrw ymlaen drwy benderfyniad arbennig yn hytrach na phenderfyniad diodyn y pwyllgor.

Datganiad i aelodau. Dylai aelodau o bob cymdeithas sy'n cymryd rhan gael gwybodaeth

glir am y trosglwyddo arfaethedig mewn datganiad i aelodau.

- Pan fydd aelodau'n pleidleisio, dylai'r datganiad i aelodau gynnwys crynodeb o'r wybodaeth ariannol allweddol. Byddai hyn yn helpu aelodau i ddeall beth yw rhan fwyaf cymhleth y datganiad yn aml.
- Pan fydd trosglwyddai yn bwrw ymlaen heb bleidlais aelodau, dylai aelodau barhau i gael datganiad i aelodau, ond gyda manylion byr yn hytrach na manylion llawn y materion rhagnodedig. Byddai hyn yn caniatáu i aelodau benderfynu a ydynt am gyflwyno sylwadau i'r rheoleiddiwr yn y cyfnod cyn cadarnhau.

Adroddiad actiwaraid annibynnol. Rydym hefyd yn argymhell dull mwy cymesur ar gyfer adroddiadau actiwaraid annibynnol. Caiff y rheoleiddiwr ei gwneud yn ofynnol i adroddiad o'r fath gael ei lunio mewn perthynas â throsglwyddiadau sy'n ymwneud â busnes hirdymor. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi sicrwydd gwerthfawr, ond gallant fod yn ddrud a chymryd llawer o amser. Felly, dylai adroddiad gynnwys y manylion sy'n briodol ym marn yr actiwari, oni bai fod y rheoleiddiwr yn cyfarwyddo fel arall. Byddai hyn yn caniatáu i lefel y sicrwydd gyfateb i gymhlethdod a risg y trosglwyddiad, yn hytrach na bod angen adroddiad "llawn" bob tro.

Cadarnhad gan y rheoleiddiwr. Rydym yn argymhell newidiadau i rai o'r "seiliau gwahardd" sy'n llywio penderfyniad y rheoleiddiwr ynghylch a ddylid cadarnhau trosglwyddo ai peidio. Er enghraifft, yn hytrach na gofyn a yw'r trosglwyddo yn gadarnhaol er budd aelodau, dylai'r rheoleiddiwr ofyn a fyddai'n niweidio buddiannau aelodau neu eraill sy'n cael yswiriant neu fuddion eraill yn sylweddol.

Proses drosglwyddo llwybr carlam newydd

Yn ogystal â gwella proses gyffredinol Rhan 8, rydym yn argymhell proses drosglwyddo llwybr carlam ar wahân. Y rheswm am hyn yw y gallai hyd yn oed proses well fod yn anghymesur o hyd ar gyfer rhai cymdeithasau cyfeillgar rheoledig llai neu gymdeithasau cyfeillgar nad ydynt yn rheoledig, lle gallai trosglwyddo helpu i sicrhau canlyniad buddiol i aelodau neu ddeiliaid polisi.

Trosolwg. Byddai'r broses llwybr carlam yn cadw mesurau diogelu allweddol ond yn caniatáu mwy o hyblygrwydd ac yn rhoi disgresiwn rheoleiddio newydd, er mwyn gallu graddio'r broses i amgylchiadau'r trosglwyddo. Gweler y tabl isod.

Cymhwysedd. Byddai'r broses llwybr carlam ar gael i gymdeithasau cyfeillgar llai. Ar gyfer cymdeithasau cyfeillgar rheoledig, mae hyn yn golygu'r rheini sydd â phremiymau ysgrifenedig gros blynyddol o ddim mwy na £25 miliwn, fel eu bod y tu allan i'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer cwmnïau yswiriant, a elwir yn Solvency UK. Byddai cymdeithasau cyfeillgar nad ydynt yn rheoledig yn gymwys yn awtomatig, gan nad ydynt yn cynnal busnes yswiriant.

Mesurau diogelu. Byddai'r broses yn cadw mesurau diogelu pwysig.

- Byddai'n rhaid i aelodau'r ddwy gymdeithas gymeradwyo'r trosglwyddo drwy benderfyniad arbennig o hyd, a byddai datganiad i aelodau a gymeradwywyd gan y rheoleiddiwr yn cael ei anfon cyn y bleidlais.
- Gallai'r rheoleiddiwr hefyd fynnu hysbysebu a chyfnod ar gyfer sylwadau lle bo hynny'n briodol.

- Wrth benderfynu a ddylid gwneud hynny, dylai ystyried ffactorau fel cymryd rhan mewn pleidleisio, canlyniad y bleidlais, a'r risg o niwed sylweddol i aelodau, deiliaid polisi neu dderbynwyr buddion eraill.

Cadarnhad. Ni fyddai'r broses llwybr carlam yn cael gwared ar oruchwyliaeth reoleiddiol. Byddai'r rheoleiddiwr yn dal i gadarnhau'r trosglwyddo, ond drwy ddisgresiwn cadarnhau mwy cyffredinol. Yn fras, byddai cadarnhad yn cael ei wrthod pe na allai'r olynydd gyflawni'r ymrwymadau, neu pe byddai'r trosglwyddo yn niweidio aelodau neu unigolion perthnasol eraill yn sylweddol. Dyma'r seiliau gwahardd sy'n cael eu galw'n "ffactor olynydd" a'r "ffactor aelodau" o dan y broses bresennol.

	Proses drosglwyddo gyffredinol	Proses llwybr carlam
Adroddiad actiwaraid annibynnol	Os bydd y rheoleiddiwr yn gofyn am hynny.	Os bydd y rheoleiddiwr yn gofyn am hynny.
Datganiad i aelodau	Datganiad i aelodau a gymeradwywyd gan y rheoleiddiwr i'w anfon at aelodau cyn iddynt bleidleisio neu, os caiff pleidlais aelodau ei hepgor, cyn i'r pwyllgor bleidleisio.	Datganiad i aelodau sydd wedi'i gymeradwyo gan y rheoleiddiwr i gael ei anfon at aelodau cyn iddynt bleidleisio.
Pleidleisiau'r Aelodau	Cymdeithas sy'n drosglwyddwr: mae angen pleidleisio drwy benderfyniad arbennig oni bai fod y rheoleiddiwr yn hepgor hynny. Cymdeithas sy'n drosglwyddai: nid oes angen pleidlais aelod oni bai fod y rheoleiddiwr yn gofyn am hynny os yw'r trosglwyddwr yn gymdeithas gyfeillgar.	Cymdeithas sy'n drosglwyddwr: aelodau'n pleidleisio drwy benderfyniad arbennig. Cymdeithas sy'n drosglwyddai: aelodau'n pleidleisio drwy benderfyniad arbennig.
Cais i'r rheoleiddiwr	Cais i'r rheoleiddiwr am gadarnhad.	Cais i'r rheoleiddiwr am gadarnhad.
Gofynion hysbysebu	Hysbysebu mewn un neu fwy o'r London, Belfast neu Edinburgh Gazette ac, os cyfarwyddir hynny gan y rheoleiddiwr, un neu fwy o bapurau newydd.	Dim hysbysebu, oni bai fod y rheoleiddiwr yn gofyn am hynny.
Y cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau	Yr arfer safonol yw caniatáu chwe wythnos i aelodau gyflwyno sylwadau ysgrifenedig neu ar lafar i'r rheoleiddiwr.	Dim cyfnod ar gyfer sylwadau, oni bai fod y rheoleiddiwr yn gofyn am hynny.
Y rheoleiddiwr yn cadarnhau trosglwyddo	Cadarnhad gan y rheoleiddiwr oni bai fod un o'r seiliau gwahardd a nodir yn Atodlen 15 yn berthnasol.	Cadarnhad gan y rheoleiddiwr drwy ddisgresiwn mwy cyffredinol neu "gadarnhaol".

Uno dwy gymdeithas neu ragor

Gweler Pennod 10.

Argymhelliad allweddol

Argymhelliad 58: Dylai proses uno symlach fod ar gael i gymdeithasau cyfeillgar nad ydynt yn cynnal busnes rheoledig.

Mae uno yn broses o dan Ddeddf 1992 lle mae dwy gymdeithas gyfeillgar neu ragor yn dod at ei gilydd i ffurfio un gymdeithas gyfeillgar newydd.

Er nad yw'r broses erioed wedi cael ei defnyddio, mae ymgylgoreion wedi dweud wrthym y gallai fod yn fecanwaith defnyddiol ar gyfer cyfuno. Gallai uno gefnogi twf, cryfhau hyfywedd ariannol cymdeithasau llai a chaniatáu i gymdeithasau elwa o arbedion maint. Ochr yn ochr â throsglwyddo ymrwymadau busnes, gall uno helpu cymdeithasau cyfeillgar i ymateb i gostau gweithredol cynyddol, yn enwedig yng ngoleuni disgwyliadau ymgylgoreion o "gyfnod o gyfuno".

Mae uno, a throsi sy'n cael ei drafod yn yr adran nesaf, yn rhannu nodweddion gweithdrefnol â throsglwyddiadau ymrwymadau busnes. Yn hytrach nag ailadrodd y diwygiadau trosglwyddo a esbonnir uchod, rydym yn nodi'r prif argymhelliad ychwanegol ar gyfer uno fel a ganlyn.

Proses symlach ar gyfer cymdeithasau cyfeillgar nad ydynt yn rheoledig

Ar hyn o bryd, mae pob cymdeithas sy'n uno i bob pwrpas yn ddarostyngedig i'r un broses statudol, er gwaethaf gwahaniaethau yn eu gweithgareddau a'u modelau busnes. Rydym o'r farn nad oes angen hyn ar gyfer

cymdeithasau cyfeillgar nad ydynt yn rheoledig. Nid ydynt yn cynnal busnes yswiriant ac felly nid ydynt yn cyflwyno'r un risgiau darbodus nac yn diogelu deiliad polisi yr un fath â chymdeithasau rheoleiddiedig.

Felly, rydym yn argymhell proses uno symlach ar gyfer cymdeithasau cyfeillgar nad ydynt yn rheoledig. Wrth ddweud "symlach", rydym yn golygu na ddylai fod yn ofynnol gwneud cais i'r rheoleiddiwr am gadarnhad o'r uno. Byddai mesurau diogelu pwysig yn parhau. Byddai'n rhaid i aelodau pob cymdeithas sy'n uno gymeradwyo'r uno o hyd. Byddai datganiad i aelodau yn dal i gael ei anfon cyn y bleidlais, a byddai'n rhaid cymryd y camau angenrheidiol o hyd i sefydlu'r gymdeithas olynol, gan gynnwys pob un o'r cymdeithasau sy'n cymryd rhan yn cymeradwyo ei rheolau.

Trosi yn gwmni

Gweler Pennod 10.

Argymhellion allweddol

Argymhelliad 60: Dylai Deddf 1992 ddatgan yn benodol bod yn rhaid i gymdeithas sy'n trosi'n gymdeithas gyfeillgar ddilyn yr un dibenion ag yr oedd yn union cyn ei throsi.

Trosi yw'r broses pan fydd cymdeithas gyfeillgar yn dod yn gwmni sydd wedi cofrestru o dan Ddeddf Cwmnïau 2006. Nid yw'n digwydd yn aml, ond gall fod yn ddefnyddiol pan fydd cymdeithas gyfeillgar yn dymuno gweithredu o dan drefn gyfreithiol wahanol neu ar ffurf gorfforaethol sy'n cefnogi mynediad at gyfalaf allanol yn well.

Cwestiwn allweddol yw pa ddibenion y dylai'r cwmni allu mynd ar eu trywydd adeg y trosi. Dim ond at y dibenion statudol a ganiateir gan Ddeddf 1992 y caiff cymdeithasau cyfeillgar fynd ar drywydd y rhain. O gymharu, gall cwmnïau, yn gyffredinol, fabwysiadu gwrthrychau llawer ehangach. O dan y dull presennol, rhaid i gymdeithas gyfeillgar drosi'n gwmni gyda'r un dibenion ag a oedd ganddi yn union cyn ei throsi. Os yw'r endid am ehangu ei amcanion yn nes ymlaen, rhaid iddo wneud hynny ar wahân o dan gyfraith cwmnïau.

Rydym yn dod i'r casgliad y dylai'r broses dau gam hon barhau. Mae'n sicrhau na ofynnir i aelodau gymeradwyo'r trosi a'r posibilrwydd o symud oddi wrth gydfuddiannu fel un pecyn. Efallai y bydd cwmni sydd wedi'i drosi yn dal i ehangu ei amcanion yn nes ymlaen, ond dylid gwneud y penderfyniad hwnnw ar wahân, o dan y mesurau diogelu llywodraethiant sy'n berthnasol i gwmnïau.

Rydym yn argymhell y dylai fod yn amlwg yn Neddf 1992, bod yn rhaid i gymdeithas sy'n trosi'n gymdeithas gyfeillgar ddilyn yr un dibenion ag yr oedd yn union cyn ei throsi.

Mynediad at gyfalaf allanol

Gweler Pennod 11.

Argymhellion allweddol

Argymhelliad 61: Dylai'r Llywodraeth ystyried yr angen i gyflwyno mecanweithiau codi cyfalaf ar gyfer cymdeithasau cyfeillgar, o gofio bod diffyg mecanweithiau o'r fath yn rhwystr rhag twf i rai cymdeithasau cyfeillgar.

Ni all cymdeithasau cyfeillgar godi cyfalaf drwy roi cyfranddaliadau i aelodau neu fuddsoddwyr allanol. Maent fel arfer yn ariannu eu gweithgareddau drwy gyfraniadau gan aelodau, gwarged wrth gefn neu fenthycu. Mae hyn yn

cefnogi sefydlogrwydd, ond gall hefyd wneud twf yn anodd: mae cyfalaf yn cael ei gronni'n araf, a gall fod yn anodd cyfiawnhau defnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer buddsoddi lle gallai gymryd blynyddoedd lawer i adnewyddu'r cronfeydd hynny.

Dywedodd ymgynghoreion wrthym y gallai gwell mynediad at gyfalaf helpu rhai cymdeithasau cyfeillgar i fuddsoddi mewn cynnyrch newydd, technoleg, dosbarthu, derbyniadau a chyfleoedd twf eraill. Gallai hefyd gefnogi gwydnwch hirdymor y sector. Fodd bynnag, byddai angen i unrhyw ddulliau codi cyfalaf gadw cymeriad cyffredin cymdeithasau cyfeillgar a diogelu rheolaeth aelodau.

Bwriad Deddf Cyfranddaliadau Gohiriedig Cwmnïau Cydfuddiannol 2015 oedd creu llwybr posibl i rai cwmnïau cydfuddiannol, gan gynnwys cymdeithasau cyfeillgar, godi cyfalaf allanol. Ond nid yw ar gael yn ymarferol am nad yw'r rheoliadau angenrheidiol wedi'u gwneud. Treth yw'r prif anhawster. Pe bai cymdeithasau cyfeillgar yn codi arian gan fuddsoddwyr allanol, gellid ystyried eu bod yn cynnal busnes i gynhyrchu elw i'r buddsoddwyr hynny, yn hytrach na gweithredu er budd eu haelodau yn unig. Gallai hynny roi eu triniaeth dreth ffafriol mewn perygl.

Gan fod polisi trethi y tu allan i'n cylch gwaith, nid ydym yn argymhell cyflwyno mecanweithiau codi cyfalaf newydd. Fodd bynnag, rydym yn dod i'r casgliad y gall diffyg mecanwaith o'r fath fod yn rhwystr i dwf cynaliadwy ar gyfer rhai cymdeithasau cyfeillgar. Rydym yn argymhell bod y Llywodraeth yn ystyried a ddylid cyflwyno mecanweithiau codi cyfalaf ar gyfer cymdeithasau cyfeillgar, gan ystyried y goblygiadau ehangach i yswirwyr cydfuddiannol a pholisi trethi yn fwy cyffredinol.

Gweithgareddau busnes

Gweler Pennod 12.

Argymhellion allweddol

Argymhelliad 62: Dylai'r dibenion pam dylai cymdeithasau cyfeillgar allu bodoli fod yr ystod lawn o weithgareddau yswiriant a reoleiddir o dan y Ddeddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol, yn amodol ar eithriadau cyfyngedig.

Argymhelliad 64: Dylid dileu cyfyngiadau ar allu cymdeithasau cyfeillgar i adyswirio.

Argymhelliad 65: Dylai cymdeithasau cyfeillgar allu buddsoddi mewn unrhyw ffordd a awdurdodir gan eu rheolau.

Nid yw cymdeithasau cyfeillgar yn gwmnïau masnachol cyffredinol. Mae Deddf 1992 yn cyfyngu ar y dibenion y gallant fodoli ar eu cyfer a'r gweithgareddau y cânt eu cynnal. Mae hynny'n adlewyrchu eu cymeriad cydfuddiannol, ond mae rhai cyfyngiadau bellach yn mynd yn groes i drefniadau gwasanaethau ariannol modern.

Nid dileu pob cyfyngiad yw ein nod. Ein nod yw sicrhau nad yw'r cyfyngiadau yn Deddf 1992 yn atal cymdeithasau cyfeillgar yn ddiangen rhag datblygu cynnyrch, rheoli risg neu fuddsoddi'n effeithiol, lle mae'r materion hynny eisoes yn destun goruchwyliaeth reoleiddiol briodol. Rydym yn nodi rhai o'n hargymhellion isod.

Yr amrywiaeth o gynnyrch yswiriant y gall cymdeithasau cyfeillgar eu cynnig

Ar hyn o bryd, ni all cymdeithasau cyfeillgar gynnig yr amrywiaeth lawn o gynnyrch yswiriant sydd ar gael i yswirwyr masnachol. Y rheswm am hyn yw bod Deddf 1992 yn cynnwys rhestr

fwy cyfyng o ddibenion yswiriant a ganiateir na'r gweithgareddau a reoleiddir o dan y Ddeddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol (gweler Atodlen 2 i Ddeddf 1992).

Rydym o'r farn na ellir cyfiawnhau'r cyfyngiad statudol ychwanegol hwn mwyach. Dylai dibenion cymdeithas gyfeillgar, mewn egwyddor, allu cynnwys yr ystod ehangach o weithgareddau yswiriant a reoleiddir o dan y Ddeddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol, yn amodol ar eithriadau cyfyngedig. Yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus ddylai benderfynu a gaiff cymdeithas gyfeillgar gyflawni gweithgaredd rheoledig penodol drwy'r broses awdurdodi o dan Ran 4A o'r Ddeddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol.

Darparu adyswiriant

Mae adyswirio yn ffordd i yswiriwr drosglwyddo rhywfaint o'r risg y mae wedi'i chymryd i yswiriwr arall. Gall helpu yswirwyr i reoli risg, cefnogi twf a gwneud trafodion yn haws eu cwblhau.

Ar hyn o bryd, mae Deddf 1992 yn defnyddio dull cyfyngol. Dim ond os yw'r risg yn ymwneud â dosbarth busnes y mae'r gymdeithas gyfeillgar eisoes yn ei gynnal y gall cymdeithas gyfeillgar adyswirio risgiau sydd wedi'u hyswirio gan gymdeithas gyfeillgar arall. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, na all cymdeithas gyfeillgar yswirio rhwymedigaethau cwmni neu is-gwmni.

Gall y cyfyngiad hwnnw roi cymdeithasau cyfeillgar dan anfantais fasnachol. Mae adyswirio yn aml yn cael ei ddefnyddio fel cam ymarferol cyn gorffen trosglwyddo busnes yswiriant ffurfiol, gan ganiatáu i'r risg economaidd symud tra bo cymeradwyaeth ffurfiol yn dal i fod yn yr arfaeth. Ni ddylid atal cymdeithasau cyfeillgar rhag adyswirio busnes a allai fel arall gael ei drosglwyddo iddynt.

Rydym yn argymhell dileu'r cyfyngiadau hyn. Byddai hyn yn caniatáu i gymdeithasau cyfeillgar ddefnyddio adyswiriant yn fwy effeithiol i reoli risg a chystadlu am fusnes, gan

adael y cwestiwn o ganiatâd rheoleiddio a goruchwyliaeth ddarbodus i'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus yn unol â'r Ddeddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol.

Pwerau buddsoddi

Efallai y bydd cymdeithasau cyfeillgar yn dymuno buddsoddi eu harian, er enghraifft i fodloni rhwymedigaethau i aelodau yn y dyfodol a chefnogi cryfder hirdymor y gymdeithas. Mae Deddf 1992 yn rhoi pwerau buddsoddi i gymdeithasau cyfeillgar. Ond mae'r ffordd y caiff y pwerau hynny eu mynegi yn ddiangen o gymhleth ac yn adlewyrchu fframwaith cyfreithiol hen ffasiwn.

Rydym yn argymhell rheol symlach: dylai cymdeithas gyfeillgar allu buddsoddi mewn unrhyw ffordd a ganiateir gan ei rheolau. Byddai hyn yn gwneud y gyfraith yn haws ei deall ac yn cadw mesurau diogelu pwysig ar yr un pryd, gan gynnwys goruchwyliaeth reoleiddiol ar gyfer cymdeithasau cyfeillgar rheoledig a'r dyletswyddau sy'n ddyledus gan y rheini sy'n gyfrifol am reoli'r gymdeithas.

Gweinyddu, ailstrwythuro a dirwyn cymdeithasau ansolfent i ben

Gweler Pennod 13.

Anaml iawn y bydd cymdeithasau cyfeillgar yn mynd yn ansolfent o ran methu â thalu eu dyledion pan fyddant yn ddyledus. Nid ydym wedi dod o hyd i unrhyw enghreifftiau o dan Ddeddf 1992, ac nid oes dim o dan Ddeddf 1974 hyd y gallwn weld. Mae hynny'n adlewyrchu natur gyffredinol sefydlog cymdeithasau cyfeillgar, argaeledd trosglwyddiadau fel llwybr ymadael, ac, ar gyfer cymdeithasau cyfeillgar rheoledig, ymyrraeth reoleiddiol gynnar lle mae pryderon ynghylch solfedd yn codi.

Serch hynny, roeddem wedi ystyried a ddylai cymdeithasau cyfeillgar gael mynediad at offer

ansolfedd sydd ar gael i gwmnïau neu gwmnïau cydfuddiannol eraill, gan gynnwys mecanweithiau gweinyddu ac ailstrwythuro. Gall offer fel hyn helpu i achub busnes, oedi gorfodaeth credydwy'r neu ailstrwythuro rhwymedigaethau. Fodd bynnag, nid yw'r achos dros eu hymestyn i gymdeithasau cyfeillgar wedi'i gyflwyno, yn ein barn ni.

Ar gyfer cymdeithasau cyfeillgar sy'n cynnal busnes yswiriant hirdymor, mae'n debygol mai'r flaenoriaeth o ran anhawster ariannol fydd diogelu deiliaid polisi drwy drosglwyddo polisiâu i ddarparwr arall, yn hytrach nag achub yr endid presennol. Mae'r drefn dirwyn i ben bresennol eisoes yn adlewyrchu'r nod hwnnw drwy fynnu bod y diddymwr yn parhau â'r busnes gyda'r bwriad o'i drosglwyddo fel busnes gweithredol.

Roeddem hefyd wedi ystyried a ddylid cynnwys cymdeithasau cyfeillgar rheoledig yn y drefn ansolfedd sy'n berthnasol i yswirwyr masnachol. Mae rhywfaint o apêl i alinio, ond tybiannol yw'r manteision ac ni ddangoswyd bod y fframwaith presennol yn ddiffygiol. Felly, nid ydym yn argymhell diwygio yn y maes hwn.

Effaith gyffredinol yr argymhellion

Byddai ein hargymhellion, gyda'i gilydd, yn creu fframwaith cliriach, mwy cymesur a hygyrch ar gyfer cymdeithasau cyfeillgar. Maent yn cefnogi nod manifesto 2024 y Llywodraeth i ddyblu maint y sector cydfuddiannol ac yn diogelu cymeriad cydfuddiannol cymdeithasau cyfeillgar hefyd.

Y diwygio strwythurol mwyaf arwyddocaol fyddai diddymu Deddf 1974. Mae'r argymhellion eraill yn moderneiddio Deddf 1992 drwy leihau materion ffurfiol diangen, diweddarau gofynion llywodraethu ac archwilio, gwella cyfathrebu i aelodau a gwneud prosesau allweddol fel trosglwyddiadau ac uno yn fwy ymarferol.

Rydym hefyd wedi bod yn ymwybodol na ddylai Deddf 1992 ddyblygu na thorri ar draws y drefn ehangach sy'n rheoleiddio gwasanaethau

ariannol. Yn gyffredinol, dylid ymdrin â materion rheoleiddio darbodus drwy'r drefn honno, yn hytrach na thrwy gyfyngiadau ychwanegol mewn deddfwriaeth cymdeithasau cyfeillgar.

Mae'r argymhellion yn ymarferol ac ar y cyfan, maent wedi cael eu llywio gan arferion gorau mewn sectorau eraill. Maent yn dileu rhwystrau i lywodraethu da, twf cynaliadwy a newid trefnus, tra'n cadw mesurau diogelu craidd: aelodau gwybodus, hawliau pleidleisio priodol, goruchwyliaeth reoleiddiol a chymeriad cydfuddiannol cymdeithasau cyfeillgar.

